GWEINIDOGION Y DEYRNAS UNEDIG SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG

195 - Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Rhywogaethau Estron Goresgynnol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 21 Hydref 2020

Sifftio	
Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU?	Nac ydynt
Gweithdrefn:	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Amherthnasol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Amherthnasol
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amherthnasol
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 28
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen
Gweithdrefn graffu	
Canlyniad y broses sifftio	Amherthnasol
Gweithdrefn	Cadarnhaol drafft
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	3 Tachwedd 2020

Cefndir

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1) ac 8C(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

Crynodeb

Diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod y DU yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan Brotocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon ("y Protocol"). Mae'r Rheoliadau'n gwneud cywiriadau a diwygiadau technegol i amrywiaeth o is-ddeddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir i sicrhau bod y Deyrnas Unedig (DU) yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Protocol mewn perthynas â Lles Anifeiliaid, Trapiau Dal Coesau a Mewnforio Crwyn a Rhywogaethau Estron Goresgynnol.

Datganiad gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 23 Hydref 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.